1907-2007

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad Newyddion

Penaethiaid ysgol yn ymateb yn dda i hyfforddiant medrau arweinyddiaeth

9 Mai 2007

Mae rhaglen beilot wedi helpu penaethiaid i ddatblygu arweinyddiaeth athrawon eraill ond mae cyfyngiadau amser yn ei gwneud yn anodd iddynt drosglwyddo'r medrau hynny i ysgolion ar wahân i'w hysgolion eu hunain, meddai adroddiad a gyhoeddwyd gan Estyn heddiw.

Ariannwyd lleoedd ar gyfer 24 o benaethiaid ar y Rhaglen Ddatblygu ar gyfer Arweinyddiaeth Ymgynghorol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd yn cynnwys chwe diwrnod o hyfforddiant a chwe diwrnod arall iddynt ymgymryd â gwaith ymgynghorol mewn ysgolion eraill ar ôl hynny.

Dywed Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Susan Lewis: "Roedd y penaethiaid a gymerodd ran yn gadarnhaol iawn am y rhan fwyaf o'r agweddau ar y Rhaglen Ddatblygu ar gyfer Arweinyddiaeth Ymgynghorol ac ar ôl hynny, gwnaethant ddefnydd da o'r medrau a gafaelwyd i gefnogi gwelliannau yn eu hysgolion eu hunain. Creodd gyfle i athrawon profiadol rannu arfer dda."

Dywed yr adroddiad fod cynnwys y rhaglen wedi cael effaith ysgogol a phwerus ar bob un o'r penaethiaid a gymerodd ran. Fodd bynnag, nid oedd llawer o'r penaethiaid am weithredu fel arweinwyr ymgynghorol y tu allan i'w hysgolion eu hunain. Ni fyddai nifer fach ohonynt wedi ymgymryd â'r hyfforddiant pe baent yn gwybod bod hyn yn rhan o'r rhaglen.

Roedd amser a dreulir i ffwrdd o'u hysgol eu hunain yn rhwystr posibl i rai penaethiaid rhag gweithio fel arweinwyr ymgynghorol mewn ardal awdurdod addysg lleol (AALl). Ni wnaeth yr un o'r penaethiaid ymgymryd ag unrhyw weithgareddau arweinyddiaeth ymgynghorol yn eu AALl ar ôl eu hyfforddiant.

Mae'r adroddiad yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi gwybodaeth fanwl i benaethiaid ac AALlau am nodau'r rhaglen a'i gwneud yn glir y gellir defnyddio penaethiaid i gefnogi ysgolion eraill ar wahân i'w hysgol eu hunain.

Mae argymhellion eraill yn cynnwys datblygu fersiwn o'r hyfforddiant sy'n ymgorffori'r iaith Gymraeg a'i chyd-destun a meini prawf clir i helpu AALlau i ddewis y penaethiaid mwyaf addas i'w hyfforddi fel arweinwyr ymgynghorol.

DIWEDD

Nodiadau i'r Golygydd:

- Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Nod Estyn yw gwella safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru trwy arolygu a chyngor, i gefnogi'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol a amlinellir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Comisiynwyd adroddiad Estyn 'Y Rhaglen Beilot Arweinyddiaeth Ymgynghorol ar gyfer Penaethiaid yng Nghymru' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae wedi'i gyhoeddi yn www.estyn.gov.uk

- Roedd y rhaglen beilot wedi'i hanelu at benaethiaid a oedd wedi cwblhau tri chyfnod presennol datblygiad proffesiynol o dan y Rhaglen Genedlaethol Datblygu Prifathrawiaeth (RhGDP). Er ei bod yn cael ei chyflwyno fel rhaglen beilot yng Nghymru, mae'r rhaglen eisoes yn bod yn

Lloegr ac yn cael ei darparu gan y Coleg Cenedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Ysgol (NCSL).

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Claire Russell
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464